

**Nodiadau Arweiniol
Cofrestrriad Loteri Cymdeithasau Bach
(Atodlen 11 Rhannau 4 & 5
Deddf Hapchwarae 2005)
Loterïau Cymdeithasau Bach**

**Guidance Notes
Small Societies Lottery Registration
(Schedule 11 Parts 4 & 5
Gambling Act 2005)
Small Society Lotteries**

Diffiniad o Loteri Cymdeithas Fach

Er mwyn cymhwyso ar gyfer loteri cymdeithas fach, mae'n rhaid i sefydliadau sy'n dymuno cofrestru gyfarfod â'r ddau faen prawf canlynol:

Statws y gymdeithas – mae'n rhaid i'r gymdeithas dan sylw fod yn 'anfasnachol' sy'n golygu ei bod wedi ei sefydlu a'i gweithredu am o leiaf un o'r dibenion canlynol:

- i ddibenion elusennol (fel y'i diffinnir gan Adran 2 Deddf Elusennau), neu
- i bwrpas galluogi cyfranogion mewn neu gefnogi chwaraeon, athletau neu weithgaredd diwylliannol, neu
- i unrhyw bwrpas arall sy'n anfasnachol ac eithrio elw personol.

Maint y loteri - mae'n rhaid i gyfanswm gwerth y ticedi sydd ar werth fesul loteri sengl fod yn £20,000 neu lai, neu ni chaiff gwerth cyfanred y ticedi sydd ar werth yn yr holl loterïau mewn blwyddyn galendr fod dros £250,000. Os bydd gweithredwr yn bwriadu mynd dros unrhyw un o'r gwerthoedd hyn, cânt eu hystyried yn weithredwr loteri fawr, ac felly mae'n rhaid eu cofrestru gyda'r Comisiwn Hapchwarae.

Ffurflenni Cais a Dogfennaeth

Mae'n rhaid i gymdeithas hyrwyddo loteri fach, drwy gydol y cyfnod yr hyrwyddir y loteri, fod wedi ei chofrestru gyda'r awdurdod lleol lle mae ei phrif swyddfa. Os hoffech gofrestru i hyrwyddo loterïau bach, mae'n rhaid i chi gyflwyno'r canlynol i'r **Adran Drwyddedu, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN**

- Ffurflen Gais
- Copi o delerau ac amodau neu gyfansoddiad y Gymdeithas wedi eu harwyddo gan y swyddogion priodol (dylid cynghori'r Adran Drwyddedu o unrhyw ddiwygiadau i'r ddogfen yn y dyfodol), a'r
- Ffi ragnodedig o £40.00.

Sail dros Wrthod

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r Comisiwn Hapchwarae fel rhan o'r broses ymgeisio ac fe fydd yn gwrthod cais am y rhesymau canlynol:

Definition of a Small Society Lottery

In order to qualify as a small society lottery, the following 2 criteria must be met by societies wishing to register:

Society status – the society in question must be 'non-commercial' which means it must be established and conducted for at least one of the following purposes:

- for charitable purposes (as defined by Section 2 of the Charities Act), or
- for the purpose of enabling participation in, or of supporting sport, athletics or a cultural activity, or
- for any other non-commercial purpose other than that of private gain.

Size of lottery - the total value of tickets to be offered for sale per single lottery must be £20,000 or less, or the aggregate value of tickets to be offered for sale for all lotteries in a calendar year must not exceed £250,000. If an operator plans to exceed either of these values, they will be classed as a large lottery operator, and must therefore be licensed with the Gambling Commission.

Application Forms & Documentation

The promoting society of a small lottery must, throughout the period during which the lottery is promoted, be registered with the local authority in whose area their principal office is located. If you wish to register to promote small lotteries, you must submit the following to the **Licensing, PO Box 1, Conwy, LL30 9GN**

- Application Form
- A copy of the Society's terms and conditions or constitution signed by the appropriate officers (the Licensing Section should be advised of future amendments to this document), and
- The prescribed fee of £40.00.

Grounds for Refusal

The Council will consult the Gambling Commission as part of the application process and shall refuse an application for the following reasons:

- mae trwydded weithredu ar gyfer cofrestru a ddelir gan yr ymgeisydd wedi ei diddymu gan y Comisiwn Hapchwarae, neu
- mae cais am drwydded weithredu a wnaed gan yr ymgeisydd ar gyfer cofrestru wedi ei wrthod gan y Comisiwn Hapchwarae, o fewn y 5 mlynedd diwethaf.

Fe all y Cyngor hefyd wrthod cais cofrestru am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

- ni ellir tybio fod y gymdeithas dan sylw yn anfasnachol;
- mae person fydd neu a all fod yn gysylltiedig â hyrwyddo'r loteri wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol a restrir yn Atodlen 7 i'r Ddeddf, neu
- cafwyd fod gwybodaeth a ddarperir yn neu gyda'r cais cofrestru yn ffug neu'n gamarweiniol.

Dim ond pan fydd y gymdeithas wedi cael cyfle i wneud cynrychioliadau y gall y Cyngor wrthod cais cofrestru. Gellir derbyn y rhain un ai mewn gwrandawriad ffurfiol neu drwy gyfathrebiaeth. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r gymdeithas o'r rhesymau dros wrthod cofrestru ac fe ddarperir amlinelliad o leiaf o'r dystiolaeth dros y casgliad rhagarweiniol - er mwyn galluogi'r gymdeithas i wneud cynrychioliadau. Fe ymdrinnir â chynrychioliadau a gwrthwynebiadau a all ddeillio o'r fath benderfyniad yn yr un ffordd ag y byddai'r Awdurdod yn delio â chynrychioliadau perthynol i weithgaredd trwyddedu arall.

Sail y Diddymiad

Fe all y Cyngor benderfynu diddymu cofrestriad cymdeithas os bydd yn credu y byddai'n rhaid iddynt, neu fe fyddai ganddynt yr hawl i wrthod cais cofrestru os byddid yn ei gyflwyno bryd hynny.

Ni chaniateir diddymiaid oni bai fod y gymdeithas wedi cael cyfle i wneud cynrychioliadau un ai mewn gwrandawriad neu drwy gyfathrebiaeth. Eto, mewn paratoad i hyn, dylai awdurdodau trwyddedu hysbysu'r gymdeithas o'r rhesymau dros diddymu'r cofrestriad a'u darparu â thelerau'r dystiolaeth oedd yn gyfrifol am eu casgliad rhagarweiniol.

Caiff cynrychioliadau a gwrthwynebiadau o ganlyniad i'r fath benderfyniad eu trin yn yr un ffordd ag y byddai'r awdurdod yn trin cynrychioliadau perthynol i weithgaredd trwyddedu arall.

Nodwch: Bydd y trefniadau canlynol yn gymwys yn awtomatig i BOB Loteri Cymdeithas Fach o Fedi 1 2007, p'run ai a yw'r Gymdeithas Fach wedi

- an operating licence held by the applicant for registration has been revoked by the Gambling Commission, or
- an application for an operating licence made by the applicant for registration has been refused by the Gambling Commission, within the past 5 years.

The Council may also refuse an application for registration for any of the following reasons:

- the society in question cannot be deemed non-commercial;
- a person who will or may be connected with the promotion of the lottery has been convicted of a relevant offence listed in Schedule 7 to the Act, or
- information provided in or with the application for registration is found to be false or misleading.

The Council may only refuse an application for registration after the society has had the opportunity to make representations. These can be taken at a formal hearing or taken via correspondence. The Council will inform the society of the reasons why it is minded to refuse registration and will provide it with at least an outline of the evidence on which it has reached that preliminary conclusion – in order to enable the society to make representations. Representations and objections that may result after such a decision will be handled in the same way that the authority would handle representations relating to other licensing activity.

Grounds for Revocation

The Council may determine to revoke the registration of a society if it thinks that they would have had to, or would be entitled to, refuse an application for registration if it were being made at that time.

Revocations cannot take place unless the society has been given an opportunity to make representations either at a hearing or via correspondence. Again, in preparation for this, licensing authorities should inform the society of the reasons why it is minded to revoke the registration and provide them with the terms of the evidence on which it has reached that preliminary conclusion.

Representations and objections that may result after such a decision will be handled in the same way that the authority would handle representations relating to other licensing activity.

Please Note: The following arrangements will automatically apply to ALL Small Societies

gwneud cais cofrestru ffurfiol dan y Ddeddf Hapchwarae 2005 ai peidio.

Rheolaeth a Gweithrediad Loteri

Mae'r cyfyngiadau a roddir ar loteriau cymdeithas fach fel a ganlyn:

- mae'n rhaid i 20% o leiaf o dderbyniadau'r loteri gael eu cymhwyso at ddibenion y gymdeithas.
- ni chaiff unrhyw wobwr sengl fod yn werth mwy na £25,000;
- caniateir treigl rhwng loteriau dim ond pan fydd pob un o'r loteriau a effeithir hefyd yn loteri cymdeithas fach a hyrwyddir gan yr un gymdeithas, a bod uchafswm y wobwr sengl yn £25,000; a
- mae'n rhaid i bob ticed yn y loteri gostio'r un fath ac mae'n rhaid talu'r ffi am y ticed i'r gymdeithas (h.y. mae'n rhaid i'r gymdeithas dderbyn y taliad cyn y caniateir cynhwysiad yn y tyniad.

Ticedi

Gall loteriau olygu dyrannu ticedi corfforol neu rith i gyfranogwyr (ticed rhith yw ticed anghorfforol, er enghraifft ar ffurf e-bost neu neges destun). Mae'n rhaid i brynwr ticed loteri cymdeithas fach dderbyn dogfen sy'n nodi:

- enw'r gymdeithas sy'n hyrwyddo;
- pris y ticed (mae'n rhaid iddo fod yr un am bob ticed);
- enw a chyfeiriad aelod y gymdeithas sydd wedi ei benodi i fod yn gyfrifol am hyrwyddo loteriau bach, neu (os oes un) rheolwr y loteri allanol, a
- dyddiad y tyniad, neu sy'n galluogi pennu'r dyddiad

Fodd bynnag, gall y gofyniad i ddarparu'r wybodaeth hon gael ei fodloni drwy ddarparu cyfle i'r cyfranogwr gadw'r neges yn electronig neu ei phrintio.

Mae'n rhaid i bob gweithredwr cymdeithas loteri fach sydd wedi eu cofrestru â'r Cyngor gynnal cofnodion ysgrifenedig o unrhyw dicedi a werthwyd neu a ddychwelwyd am gyfnod o flwyddyn o ddyddiad tyniad y loteri. Caniateir i'r Cyngor archwilio cofnodion y loteri am unrhyw bwrpas sy'n berthnasol i'r loteri.

Gall ticedi loteri gael eu gwerthu ond gan bersonau sydd dros 16 oed i bersonau sydd dros 16 oed. Bydd person yn troseddu os byddant yn gwahodd neu ganiatáu i blentyn gymryd rhan yn y loteri ar wahân i ddsbarthiadau arbennig o loteri eithriedig (h.y. loteriau achlysurol anfasnachol, loteriau preifat, loteriau gwaith a loteriau preswylwyr). Mae'n rhaid i gymdeithasau sy'n rhedeg loteriau fod â pholisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig i atal a delio ag achosion o chwarae dan oed.

Lotteries from 1st September 2007, irrespective of whether the Small Society has yet formally applied for registration under the Gambling Act 2005.

Management and Operation of Lottery

The limits placed on small society lotteries are as follows:

- at least 20% of the lottery proceeds must be applied to the purposes of the society;
- no single prize may be worth more than £25,000;
- rollovers between lotteries are only permitted where every lottery affected is also a small society lottery promoted by the same society, and the maximum single prize is £25,000; and
- every ticket in the lottery must cost the same and the ticket fee must be paid to the society (i.e. the society must take payment) before entry into the draw is allowed.

Tickets

Lotteries may involve the issuing of physical or virtual tickets to participants (a virtual ticket being non-physical, for example in the form of an email or text message). A purchaser of a small society lottery ticket must receive a document which identifies:

- the name of the promoting society;
- the price of the ticket (must be the same for all tickets);
- the name and address of the member of the society who is designated as having responsibility at the society for promoting small lotteries, or (if there is one) the external lottery manager, and
- the date of the draw, or enables the date to be determined.

However, the requirement to provide this information can be satisfied by providing an opportunity for the participant to retain the message electronically or print it.

All small society lottery operators registered by the Council must maintain written records of any unsold and returned tickets for a period of one year from the date of the lottery draw. The Council is permitted to inspect the records of the lottery for any purpose related to the lottery.

Lottery tickets may only be sold by persons over the age of 16 to persons over the age of 16. A person commits an offence if they invite or allow a child to enter a lottery other than certain classes of exempt lottery (ie: incidental non-commercial lotteries, private lotteries, work lotteries and residents' lotteries). Societies running lotteries must have written policies and procedures in place to help prevent and deal with cases of under-age play.

O ran y lle y gellir gwerthu ticedi loteri, mae'r Cyngor yn cymhwysu'r un meini prawf i bob loteri cymdeithasau bach y mae'n eu cofrestru:

- nid ddylid gwerthu ticedi mewn stryd, lle bo stryd yn cynnwys unrhyw bont, ffordd, lôn, isffordd, sgwâr, cwrt neu gyntedd (yn cynnwys cynteddau drwy eiddo caeedig fel canolfannau siopa); a
- gellir gwerthu ticedi o giosg, mewn siop neu o ddrws i ddrws.
- Mae'r ymdriniaeth hon yn gyson ag amodau gweithredu trwydded a orfodir ar weithredwyr loteriau mawr a loteriau awdurdodau lleol.

Gwobrwyon

Gall gwobrwyon a roddir mewn loteriau cymdeithasau bach fod un ai'n arian parod neu'n anariannol.

Nid yw swm yr arian a dynnir o'r derbyniadau i dalu am wobrwion i fod yn fwy na'r cyfyngiadau a osodir gan y Ddeddf –

h.y. wedi eu cyfuno ag unrhyw gostau rhedeg y loteri, fel ffioedd y rheolwr, ni chânt fod yn fwy na 80% o gyfanswm derbyniadau'r loteri. Ni chaiff gwobrwyon a gyfrannwyd eu cyfri yn rhan o'r 80% hwn (gan na fyddai unrhyw arian yn cael ei dynnu o'r derbyniadau i'w prynu) ond fe ddylid eu datgan er hynny yn yr adroddiad yn dilyn tyniad y loteri.

Dylai gweithredwyr loteri cymdeithas fach sy'n dymuno cynnig alcohol neu eitemau sy'n cynnwys alcohol yn wobrwion gysylltu â'r Adran Drwyddedu am gyngor pellach i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Drwyddedu 2003.

Adroddiadau

Mae'n rhaid i'r gymdeithas gofrestredig anfon y wybodaeth ganlynol fel adroddiad i'r Cyngor **yn dilyn pob loteri a gynhaliwyd**. Bydd y wybodaeth hon yn caniatáu i'r Cyngor asesu a yw cyfyngiadau ariannol yn cael eu gweithredu ac i sicrhau fod yr arian a godir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpas cywir:

- y trefniadau ar gyfer y loteri - yn enwedig y dyddiad y mae'r ticedi ar gael i'w gwerthu neu eu cyflenwi, dyddiadau unrhyw dyniad a gwerth y gwobrwyon, yn cynnwys gwobrwyon a gyfrannwyd ac unrhyw dreigl;
- derbyniadau'r loteri;
- y swm a dynnwyd gan hyrwyddwyr y loteri wrth ddarparu gwobrwyon, yn cynnwys gwobrwyon yn unol ag unrhyw dreigl;
- y symiau a dynnwyd gan hyrwyddwyr y loteri o ran costau trefnu'r loteri;
- os na thalwyd am unrhyw gostau cysylltiedig â'r

With regards to where small society lottery tickets may be sold, the Council applies the following criteria to all small society lotteries it registers:

- tickets should not be sold in a street, where street includes any bridge, road, lane, footway, subway, square, court or passage (including passages through enclosed premises such as shopping malls); and
- tickets may be sold from a kiosk, in a shop or door-to-door.
- This approach is consistent with the operating licence conditions imposed upon operators of large lotteries and local authority lotteries.

Prizes

Prizes awarded in small society lotteries can be either cash or non-monetary.

The amount of money deducted from the proceeds of the lottery to cover prizes must not exceed the limits set out by the Act –

i.e. that combined with any expenses incurred with the running of the lottery, such as manager's fees, they must not comprise more than 80% of the total proceeds of the lottery. Donated prizes would not be counted as part of this 80% (as no money would be withdrawn from the proceeds to cover their purchase) but should still be declared on the return following the lottery draw.

Small society lottery operators wishing to offer alcohol or items containing alcohol as prizes should contact the Licensing Section for further advice to ensure that they comply with the Licensing Act 2003.

Returns

The following information must be sent by the registered society as returns to the Council **following each lottery held**. This information will allow the Council to assess, in particular, whether financial limits are being adhered to and to ensure that any money raised is being applied for the proper purpose:

- the arrangements for the lottery – specifically the date on which tickets were available for sale or supply, the dates of any draw and the value of prizes, including any donated prizes and any rollover;
- the proceeds of the lottery;
- the amounts deducted by the promoters of the lottery in providing prizes, including prizes in accordance with any rollovers;
- the amounts deducted by the promoters of the lottery in respect of costs incurred in organising the lottery;

loteri drwy ddiwyriad i'r derbyniadau, ac, os felly, swm y treuliau a'r ffynonellau ar gyfer eu talu; a

- y swm a gymhwyswyd i'r pwrpas y gweithredir y gymdeithas hyrwyddo (**mae'n rhaid** i hwn fod o leiaf yn 20% o'r derbyniadau).

Mae'n Rhaid i'r Adroddiadau hyn:

- gael eu hanfon at y Cyngor dim hwyrach na thri mis ar ôl dyddiad tyniad y loteri, neu yn achos loteriau ar y pryd (cardiau crafu) o fewn tri mis o'r dyddiad diwethaf y gwerthwyd y ticedi; a
- gael eu harwyddo (mae llofnodion electronig yn dderbyniol os caiff yr adroddiad ei anfon yn electronig) gan ddau aelod o'r gymdeithas, sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn, sydd wedi eu penodi'n ysgrifenedig ar gyfer y pwrpas gan y gymdeithas neu, os oes un, eu corff llywodraethol, gyda chopi o'u llythyr neu lythyrau eu penodiad.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw'r adroddiadau am gyfnod lleiaf o dair blynedd o leiaf o ddyddiad tyniad y loteri. Byddant ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am gyfnod o 18 mis o leiaf yn dilyn dyddiad tyniad y loteri.

Pan fydd cymdeithasau'n rhedeg mwy nag un loteri fach mewn blwyddyn galendr, bydd y Cyngor yn monitro cyfanswm cronus yr enillion i sicrhau nad yw cymdeithasau'n torri'r cyfyngiad ariannol blynyddol o £250,000 ar werth y ticedi.

Mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu hysbysu'r Comisiwn os bydd adroddiadau'n datgelu fod loteriau bach wedi mynd dros y gwerthoedd a ganiateir ar gyfer loteriau cymdeithasau bach, a dylid copïo'r hysbysiadau i'r gymdeithas dan sylw. Fe wnaiff y Comisiwn gysylltu â'r gymdeithas i benderfynu a ydynt am wneud cais am drwydded gweithredwr loteri, felly'n eu galluogi i redeg loteriau cymdeithasau mawr yn gyfreithlon, a byddant yn hysbysu'r awdurdod trwyddedu o ganlyniad y cysylltiadau â'r gymdeithas.

Beth yw loteriau achlysurol neu "anfasnachol"?

Loteri achlysurol neu anfasnachol yw un nad yw'n cael ei hyrwyddo er elw preifat ac sy'n achlysurol i ddigwyddiad anfasnachol. Gall enghreifftiau gynnwys loteri a gynhelir mewn ffair ysgol, neu mewn digwyddiad cymdeithasol fel cinio a dawn. Tybir fod digwyddiad yn anfasnachol os bydd yr holl arian a godir yn y digwyddiad, yn cynnwys pris mynediad, yn gyfan gwbl i bwrpas nad yw'n elw preifat.

Felly byddai digwyddiad cymdeithasol i godi arian gyda thâl mynediad yn anfasnachol os byddai'r broffid yn mynd i gymdeithas ond byddai'n fasnachol os cedwid y broffid gan y trefnydd.

- whether any expenses incurred in connection with the lottery were not paid for by deduction from the proceeds, and, if so, the amount of expenses and the sources from which they were paid; and
- the amount applied to the purpose for which the promoting society is conducted (this **must** be at least 20% of the proceeds).

These Returns must:

- be sent to the Council no later than three months after the date of the lottery draw, or in the case of instant lotteries (scratch cards) within three months of the last date on which tickets were on sale; and
- be signed (electronic signatures are acceptable if the return is sent electronically) by two members of the society, who must be aged eighteen or older, are appointed for the purpose in writing by the society or, if it has one, its governing body, and accompanied by a copy of their letter or letters of appointment.

The Council is required to retain returns for a minimum period of three years from the date of the lottery draw. They will be available for inspection by the general public for a minimum period of 18 months following the date of the lottery draw.

Where societies run more than one small lottery in a calendar year, the Council will monitor the cumulative totals of returns to ensure that societies do not breach the annual monetary limit of £250,000 on ticket values.

The Commission must be notified by licensing authorities if returns reveal that society's lotteries have exceeded the values permissible for small society lotteries, and such notifications should be copied to the society in question. The Commission will contact the society to determine if they are going to apply for a lottery operator's licence, thereby enabling them to run large society lotteries lawfully, and will inform the licensing authority of the outcome of its exchanges with the society.

What are incidental "non commercial" lotteries?

An incidental non-commercial lottery is one that is not promoted for private gain and which is incidental to a non-commercial event. Examples may include a lottery held at a school fete, or at a social event such as a dinner dance. An event is deemed non-commercial if all the money raised at the event, including entrance fees, goes entirely to purposes that are not for private gain.

Therefore a fundraising social event with an entrance fee would be non-commercial if the profits went to a society but would be commercial if the profits were retained by the organiser.

Ar gyfer loteri o'r math yma, mae rhan un o atodlen 11 y Ddeddf, a'r rheoliadau'n dynodi'r canlynol:

- Ni chaiff hyrwyddwyr y loteri dynnu mwy na £500 o'r derbyniadau ar gyfer cost y gwobrwyon.
- Ni chaiff hyrwyddwyr y loteri dynnu mwy na £100 o'r derbyniadau ar gyfer cost treuliau eraill, fel cost printio ticedi neu hurio cyfarpar
- Ni chaiff y loteri ymglymu treigl gwobrwyon o un loteri i'r llall.
- Dim ond yn yr adeilad hwnnw yn ystod y digwyddiad y caniateir gwerthu ticedi, ac mae'n rhaid cyhoeddi'r canlyniad yn ystod y digwyddiad.

Ffioedd

- Y ffi i'w hanfon gyda'r cais ar gyfer cofrestru yw £40.00.
- Bob blwyddyn, er mwyn cynnal y cofrestriad, bydd Tâl Blynnyddol o £20.00 yn daladwy.

Mae'n rhaid talu'r Tâl Blynnyddol yn ystod cyfnod y ddau fis sy'n diweddu ar ben-blwydd y cofrestriad.

Os na thelir y tâl hwn mae'n debyg mai'r canlyniad fydd diddymu cofrestriad y Gymdeithas ac mae hynny'n golygu y bydd unrhyw weithgaredd loteri'n anghyfreithiol oni bai a hyd nes bod cais newydd dan Ddeddf Hapchwarae 2005 wedi ei ganiatáu.

For this type of lottery, part one of schedule 11 of the Act, and regulations laid by the regulations, specify the following:

- The promoters of the lottery may not deduct more than £500 from the proceeds in respect of the cost of prizes.
- The promoters of the lottery may not deduct more than £100 from the proceeds in respect of the cost of other expenses, such as the cost of printing tickets or hire of equipment.
- The lottery cannot involve a rollover of prizes from one lottery to another.
- Tickets must only be sold at the premises during the event, and the result must be made public while the event takes place.

Fees

- The fee to accompany an application for registration is £40.00.
- Each year, in order to maintain the registration, an Annual Fee of £20.00 will be payable.

The Annual Fee must be paid during the period of two months ending on the anniversary of the registration.

Failure to pay this fee is likely to result in the Society's registration being cancelled meaning that any lottery activity will be illegal unless and until a new application under the Gambling Act 2005 has been granted.